YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDRADDOLDEB, LLYWODRAETH LEOL A CHYMUNEDAU

Craffwyd ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ym mis Tachwedd 2017. Cwblhawyd adroddiad gan y Pwyllgor yn cynnwys 16 argymhelliad. Y papur hwn yw'r ymateb ffurfiol i'r argymhellion hynny.

Setliad Llywodraeth Leol dros dro 2018-19

Argymhelliad 1

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ailedrych ar y gostyngiad ychwanegol arfaethedig o 1.5 y cant yn y setliad llywodraeth leol dangosol ar gyfer 2019-20 â'r bwriad o gynyddu i'r eithaf y refeniw sydd ar gael i awdurdodau. Gan hynny, rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod cyn gynted ag y bo modd am unrhyw newidiadau tebygol i gyllid llywodraeth leol yn 2019-20 er mwyn cynorthwyo'r sector yn ei gynlluniau ariannol tymor canolig.

Ymateb – Derbyn mewn egwyddor

Gwneir y penderfyniadau ynglŷn â dyraniadau cyllid rhwng y prif grwpiau gwariant (MEG) ar y cyd gan Weinidogion Cymru. Roedd y Gyllideb Derfynol a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar 19 Rhagfyr yn nodi £40 miliwn yn ychwanegol i gyllid llywodraeth leol yn 2019-20. Adlewyrchwyd hyn yn y setliad llywodraeth leol terfynol a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr.

Goblygiadau ariannol - Dim. Eisoes wedi'u hystyried wrth baratoi'r gyllideb derfynol.

Gofal cymdeithasol ac addysg

Argymhelliad 2

Rydym yn argymell bod cyllidebau yn y dyfodol yn fwy tryloyw ac eglur ynglŷn â sut y cyflwynir cyllid ychwanegol.

Ymateb – Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn cefnogi'r egwyddor o ddarparu cymaint o eglurder a thryloywder â phosibl wrth gyflwyno'r gyllideb.

Goblygiadau ariannol - Dim

Cronfeydd wrth gefn

Argymhelliad 3

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a yw wedi cynnal adolygiad o'r modd y gweithredwyd y canllawiau hyn ar gronfeydd wrth gefn llywodraeth leol, ac yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar ganlyniad unrhyw adolygiad o'r fath. Os na chynhaliwyd adolygiad, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried gwneud hynny.

Ymateb – Gwrthod

Cyhoeddwyd y canllawiau ar gronfeydd wrth gefn llywodraeth leol ym mis Ionawr 2016 gyda'r bwriad o hwyluso proses graffu dda. Ers hynny, mae etholiad llywodraeth leol 2017 yng Nghymru wedi arwain at ethol nifer o gynghorwyr newydd a gweinyddiaethau newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried a ddylid cynnal adolygiad ac mae'n ystyried ei bod yn fwy priodol ailgyhoeddi'r canllawiau i bob un o'r cynghorwyr sydd newydd eu hethol er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'u rôl o ran craffu ar gadw a defnyddio cronfeydd wrth gefn yn eu cyngor. Bydd ailgyhoeddi'r canllawiau yn cyd-fynd ag ystyriaethau'r gyllideb sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd ym mhob cyngor ledled Cymru er mwyn caniatáu i aelodau etholedig lleol fod yn fodlon bod penderfyniadau ynglŷn â chadw a defnyddio cronfeydd wrth gefn yn rhoi'r gwerth gorau o ran taliadau'r dreth gyngor.

Goblygiadau ariannol - Dim

Grantiau Penodol

Argymhelliad 4

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut y mae'n bwriadu monitro gwariant a chanlyniadau mewn meysydd a arferai dderbyn grantiau, ar ôl ymgorffori'r grantiau hynny i'r grant cynnal refeniw.

Ymateb – Derbyn

Lle mae grantiau penodol wedi'u trosglwyddo i'r grant cynnal refeniw, mater i'r maes polisi perthnasol yw ystyried fel rhan o'r broses drosglwyddo pa drefniadau pellach y gall fod yn briodol eu sefydlu i sicrhau bod y canlyniadau a ddymunir yn parhau i gael eu cyflawni. Bydd hyn yn amrywio yn amodol ar natur y grant, y trefniadau blaenorol a oedd yn bodoli ac i ba raddau mae'r canlyniadau yn weladwy ac yn fesuradwy. Mae'n bwysig wrth ystyried hyn y cydnabyddir mai'r bwriad wrth ddarparu'r cyllid drwy'r grant cynnal refeniw heb ei neilltuo yw y dylai llywodraeth leol gael y rhyddid i reoli sut y caiff yr adnoddau eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithlon er mwyn cyflawni'n effeithiol y canlyniadau a ariannwyd yn flaenorol drwy drefniant grant. Bydd gwybodaeth ar wariant yn cael ei gasglu drwy gyfres o ffurflenni gwariant.

Goblygiadau ariannol - Dim

Y Prif Grŵp Gwariant Cymunedau a Phlant

Y Grant Newydd ar gyfer Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chefnogaeth

Argymhelliad 5
Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn:

- **ymrwymo i ail-fuddsoddi'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig o £13 miliwn yn ôl yn y Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chefnogaeth;**
- **cymryd camau i sicrhau na fydd unrhyw arbedion effeithlonrwydd a wneir o 2019-20 ymlaen yn arwain at ostyngiad yn lefel y gwasanaethau;**
- **amlinellu'r sail dystiolaeth a'r rhesymeg dros y penderfyniad;**
- **nodi pa drefniadau sydd ar waith i fonitro canlyniadau, er mwyn sicrhau nad yw dadneilltuo yn achosi i bobl sy'n agored i niwed lithro i'r bylchau yn y gwasanaethau;**
- **sicrhau y clustnodir, mewn rhyw ffordd, y cyllid ar gyfer gwasanaethau tai a gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai a ariennir trwy'r Grant; a**
- **sicrhau bod y Gronfa newydd yn dryloyw trwy ymrwymo i gasglu a chyhoeddi manylion yr union wasanaethau, yn enwedig gwasanaethau a fydd yn mynd i'r afael â digartrefedd, a gaiff eu hariannu ym mhob awdurdod lleol sy'n cymryd rhan yn y cyfnod treialu yn 2018-19.**

Ymateb – Derbyn yn rhannol

Fel yr amlinellir yn naratif y Gyllideb amlinellol ar gyfer 2018-19 fel rhan o'n proses gynllunio, rydym wedi archwilio'r ystod o grantiau arbennig a ddarperir ar draws Llywodraeth Cymru i lywodraeth leol a sut y gellir cyfuno'r rhain i gynyddu eu heffaith, a thrwy hynny leihau biwrocratiaeth a darparu mwy o werth am arian a gwella canlyniadau i ddinasyddion.

Drwy gyfuno mwy o grantiau i'r grant cymorth refeniw llywodraeth leol a chyfuno grantiau eraill, wedi'u cefnogi gan fframweithiau canlyniadau, rydym yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol ac yn helpu i leihau'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chyllid grant. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu ail-flaenoriaethu cyllid i ddiogelu cyllid craidd i ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol drwy grant cynnal refeniw llywodraeth leol.

Rhagwelir y bydd yr hyblygrwydd cyllido a'r effeithlonrwydd o ran rheoli un grant sengl ar gyfer ymyrraeth gynnar, atal problemau a chefnogaeth yn helpu i liniaru effaith gwireddu'r arbedion sydd eu hangen. Yn ychwanegol at hynny, disgwylir i'r hyblygrwydd a'r gallu i gynyddu cydgysylltiad ar draws rhaglenni a lleihau gorgyffwrdd helpu i wrthbwyso effaith gostyngiad o £13 miliwn. Fel rhan o'r gwaith parhaus a amlinellir isod byddwn yn parhau i adolygu'r cwantwm sydd ei angen i gyflawni'r canlyniadau gofynnol wrth gynllunio ar gyfer cyllideb 2019-20.

Dros sawl blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o raglenni wedi'u hanelu at gefnogi pobl a chymunedau sy'n agored i niwed. Mae grant

penodol gyda'i ofynion a'i gyfyngiadau ei hun yn cyd-fynd â phob rhaglen. Nid yw edrych ar y rhaglenni hyn a'u cyllid fel endidau gwahanol ac ar wahân yn adlewyrchu realiti bywydau pobl nac ychwaith yr angen am wasanaethau cyson sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Rydym eisiau gwella canlyniadau a chyflwyno gwell cefnogaeth i deuluoedd ac unigolion sy'n agored i niwed – heb gael ein llesteirio gan gyfyngiadau artiffisial sy'n cael eu creu weithiau gan grantiau unigol.

Mae awdurdodau lleol wedi dweud wrthym y gall y cyfyngiadau gwahanol a osodir gan ofynion amrywiol y grantiau eu hatal rhag arloesi ac ailgynllunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion eu dinasyddion. At hynny, mae pob un o'r grantiau yn dod ag elfen o weinyddiaeth a chostau cysylltiedig a allai gael eu defnyddio'n well i helpu dinasyddion.

Byddwn yn gweithio'n agos ag awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn y cyfnod treialu dros yr ychydig fisoedd nesaf i gasglu rhagor o dystiolaeth i lywio ein penderfyniadau.

Mewn cyfnod o bwysau ariannol difrifol, rydym yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na mewnbwn a nod yr Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chefnogaeth, os byddwn yn bwrw ymlaen ag ef, fyddai galluogi rhagor o Awdurdodau Lleol i gynnal eu gwasanaethau drwy roi'r rhyddid iddynt eu darparu mewn ffordd fwy hyblyg ac effeithlon. Felly ni allwn wneud yr ymrwymiad y gofynnir amdano mewn perthynas ag ail-fuddsoddi'r arbedion.

Nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud o ran creu grant Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chefnogaeth yn 2019-20. Fodd bynnag, os bydd Gweinidogion yn penderfynu bwrw ymlaen bydd yn parhau i fod yn grant wedi'i glustnodi gyda'r cyllid wedi'i ddiogelu a fydd i'w ddefnyddio o fewn y meini prawf a osodir ar gyfer y grant newydd yn unig, a byddai haen cael ei fonitro'n ofalus. Mae'n hollol hanfodol bod gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed yn cael eu diogelu ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau y caiff cyllid sy'n cefnogi gwasanaethau ataliol anstatudol ei ddiogelu.

Rydym yn gweithio â'r Awdurdodau Lleol sy'n rhan o'r cynllun braenaru a rhanddeiliaid i ddatblygu telerau ac amodau a fframwaith canlyniadau sy'n taro'r cydbwysedd cywir rhwng hyblygrwydd i Awdurdodau Lleol ymateb i'w cyd-destun lleol a'r angen i sicrhau ein bod yn diogelu buddiannau grwpiau sy'n agored i niwed. Ar gyfer 2018-19, rhagwelir y bydd ganddo yn fras yr un trefniadau monitro ac adrodd â'r rhai sy'n bodoli ar gyfer y grantiau unigol.

Bydd yr awdurdodau lleol sy'n rhan o'r cynllun braenaru yn cyflwyno eu cynlluniau gwario arfaethedig ar gyfer cyllid a gaiff ei gynnwys yn y rhaglen fraenaru Hyblygrwydd Cyllido i Lywodraeth Cymru er mwyn craffu arnynt. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gynlluniau gwario a'u cymeradwyo y bydd y grant yn cael ei dalu.

Byddwn yn parhau i gasglu a chyhoeddi data ar wasanaethau cefnogi pobl ac atal digartrefedd.

Goblygiadau ariannol - Dim

Cydraddoldeb

Argymhelliad 6

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailddechrau cynnal asesiadau effaith manwl o'i chyllideb ddrafft yn y dyfodol, yn unol ag argymhellion y pwyllgor a'n rhagflaenodd, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac arfer da rhyngwladol.

Ymateb – Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhaid i asesiadau effaith manwl, e.e. Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, gael eu cynnal fel rhan o ddatblygu polisi. Bydd y rhain yn llywio penderfyniadau cyllideb presennol a Gweinidogion unigol sy'n gyfrifol am gwblhau'r asesiad effaith perthnasol lle bo angen er mwyn llywio'r Asesiad Effaith Integredig, a chraffu pellach. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau i gyhoeddi asesiadau effaith integredig ochr yn ochr â chyhoeddi'r gyllideb ddrafft.

Goblygiadau ariannol - Dim

Tlodi a chyflogadwyedd

Argymhelliad 7

O gofio bod gwahanol adrannau'n gyfrifol am y cyllid ar gyfer rhaglenni lleihau tlodi, a'r ffaith fod cyfrifoldebau Ysgrifenyddion a Gweinidogion wedi newid yn ddiweddar ar draws y llywodraeth, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ailystyried yr angen am strategaeth lleihau tlodi ar draws y llywodraeth, yn unol â'r argymhelliad yn ein hadroddiad diweddar, *Cymunedau yn Gyntaf: yr hyn a ddysgwyd*.

Ymateb – Gwrthod

Mae ein Strategaeth Genedlaethol, *Ffyniant i Bawb,* yn darparu fframwaith er mwyn inni weithredu fel Llywodraeth gyfan i gynyddu ffyniant a mynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd tlodi mewn modd mwy effeithiol a chydgysylltiedig. Cyhoeddwyd y Strategaeth ar 19 Medi ac mae'n amlinellu pedair thema allweddol a fydd yn cyfrannu tuag at ffyniant i bawb, sef Ffyniannus a Diogel, Iach ac Egnïol, Uchelgeisiol ac yn Dysgu, ac Unedig a Chysylltiedig.

Dros gyfnod yr hydref/gaeaf rydym wedi cyhoeddi rhai o'r cynlluniau allweddol sydd wrth wraidd y themâu hyn. Mae'r rhain yn amlinellu sut y byddwn yn ymateb i anghenion dinasyddion Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn tlodi.

Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl yw'r cynllun addysg a gyhoeddwyd ar 26 Medi sy'n amlinellu sut y byddwn yn parhau i godi safonau a lleihau'r bwlch o ran cyrhaeddiad rhwng dysgwyr dan anfantais a'u cyfoedion.

Cyhoeddwyd y *Cynllun Gweithredu Economaidd* ar 12 Rhagfyr. Mae'n gynllun eang sy'n defnyddio pob opsiwn ar draws y Llywodraeth i gefnogi twf economaidd, lledaenu cyfleoedd a hybu llesiant. Rydym wedi ymrwymo i greu economi a marchnad lafur gref sy'n cefnogi'r agenda ar gyfer mynd i'r afael â thlodi ac sy'n lleihau tlodi mewn gwaith.

Gan edrych ymlaen a chydnabod mai gwaith yw'r ffordd fwyaf effeithiol allan o dlodi, bydd ein Cynllun Cyflenwi Cyflogadwyedd yn cael ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd. Mae'n ategu'r ymrwymiad yn Symud Cymru Ymlaen i ail-lunio cymorth cyflogadwyedd i unigolion sy'n barod am waith, a'r rheiny sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur, er mwyn eu helpu nhw i ennill y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i gael a chadw swyddi cynaliadwy.

Mae'r Tasglu ar gyfer y Cymoedd hefyd wedi cyhoeddi'r cynllun cyflawni ar gyfer *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*. Mae'n amlinellu ystod o nodau a chamau gweithredu mewn tri maes blaenoriaeth, sef swyddi a sgiliau, gwell gwasanaethau cyhoeddus a'r

gymuned leol. Byddwn yn adrodd ar y cynnydd a wnaed ac yn nodi arferion gorau y gellir eu rhannu ledled gweddill Cymru.

Goblygiadau ariannol – Dim

Argymhelliad 8

Hoffem gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi misglwyf, a faint o arian sydd wedi'i ddyrannu.

Ymateb – Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod tlodi misglwyf yn fater pwysig. Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar opsiynau i fynd i'r afael â thlodi misglwyf fel rhan o'n gwaith ehangach o leihau anghydraddoldeb a lliniaru effaith tlodi.

Yn benodol, rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o greu cynllun i ddarparu deunydd hylendid menywod i ddefnyddwyr banciau bwyd yng Nghymru. Megis dechrau y mae'r gwaith hwn a bydd yn cynnwys ystyriaeth o gostau a chyllid.

Rydym hefyd wedi ymchwilio i'r cysylltiadau posibl rhwng presenoldeb yn yr ysgol a thlodi misglwyf. Yn ystod yr haf, ymgysylltwyd ag ystod eang o randdeiliaid i adolygu'r trefniadau cenedlaethol ar gyfer presenoldeb yn yr ysgol. Dywedir wrthym nad yw'n hysbys bod argaeledd deunydd hylendid menywod am ddim yn cael effaith ar bresenoldeb yn yr ysgol. Os ceir achosion lle bydd angen deunydd hylendid ar ferched, dylai bod gan ysgolion drefniadau hysbys i gefnogi llesiant y dysgwyr a dylent fod yn cymryd camau i atgoffa merched yn rheolaidd bod cynnyrch misglwyf ar gael gan staff penodol os bydd ei angen.

Mae rhai awdurdodau lleol yn parhau i ymchwilio i effaith posibl tlodi misglwyf ar ddysgu. Byddwn yn parhau i weithio â gwasanaethau addysg ac eraill i ystyried unrhyw dystiolaeth newydd sy'n ymddangos ac i archwilio opsiynau eraill i fynd i'r afael â thlodi misglwyf.

Goblygiadau ariannol – Dim ar hyn o bryd

Cymunedau yn Gyntaf

Argymhelliad 9

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y bydd yn sicrhau bod Cyllid Etifeddol Cymunedau yn Gyntaf a'r Cynllun Cyflogadwyedd arfaethedig yn diwallu anghenion pobl ifanc ac anabl sy'n debygol o deimlo effaith anghymesur oherwydd bod Cymunedau yn Gyntaf yn dirwyn i ben.

Ymateb – Derbyn

Bydd y Gronfa Etifeddol yn hyblyg er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol roi agweddau mwyaf effeithiol Cymunedau yn Gyntaf ar waith mewn modd sy'n diwallu anghenion eu cymunedau lleol yn y ffordd orau.

Tra bydd gweithgareddau'r Gronfa Etifeddol yn cael eu hadnabod yn lleol, mae'r egwyddorion arweiniol sydd eisoes wedi'u cyhoeddi yn ei gwneud yn glir y dylai'r blynyddoedd cynnar fod yn ystyriaeth allweddol, ynghyd ag asesiad o lesiant lleol a'r cynllun llesiant lleol.

Gwyddom fod pobl ifanc sy'n ddi-waith mewn mwy o berygl o gael 'creithiau' hirdymor, o ran cyflog is, diweithdra uwch a llai o gyfleoedd bywyd. Bydd ein Cynllun Cyflenwi Cyflogadwyedd yn amlinellu'r camau rydym yn eu cymryd yn benodol er mwyn i bobl ifanc fynd i'r afael â'r rhwystrau i gyflogaeth a'u goresgyn.

Rydym hefyd yn gwybod bod y gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor yn is na'r gyfradd i'r rhai heb gyflyrau. Byddwn yn amlinellu'r camau rydym yn eu cymryd i ddarparu pecyn cymorth mwy unigol a phwrpasol i'r rhai sy'n chwilio am waith, a'r camau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau bod pobl anabl, a grwpiau eraill â nodweddion gwarchodedig yn cael mynediad i'r cymorth sydd ar gael a chyfleodd cyflogaeth dilynol.

Goblygiadau ariannol - **Byddai unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol**

Y Gronfa Cymorth Dewisol

Argymhelliad 10

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro pa gamau y mae wedi eu cymryd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r gronfa cymorth dewisol ac i'w gwneud yn haws manteisio arni, er mwyn sicrhau bod y gronfa fwy yn cyrraedd y bobl hynny sydd ei hangen fwyaf.

Argymhelliad – Derbyn

Caiff y Gronfa Cymorth Dewisol ei hyrwyddo drwy ein partneriaid. Rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gronfa Cymorth Dewisol ymysg sefydliadau sy'n gweithio â phobl a allai fod yn agored i niwed a than anfantais. Mae cyfres o daflenni gwybodaeth wedi'u cynhyrchu a'u cylchredeg i gefnogi sefydliadau sy'n gweithio â grwpiau sy'n agored i niwed gan gynnwys pobl ddigartref, pobl sy'n ffoi rhag trais yn y cartref a phobl sy'n gadael gofal, er mwyn sicrhau bod sefydliadau perthnasol yn ymwybodol o'r Gronfa Cymorth Dewisol ac yn gallu cefnogi eu cleientiaid â cheisiadau.

Rydym hefyd yn parhau i geisio cynyddu nifer y partneriaid cofrestredig yn y Gronfa Cymorth Dewisol gan ein bod yn credu mai partneriaid sydd yn aml yn y sefyllfa orau i gynorthwyo â cheisiadau. Mae yna Reolwr Partneriaeth pwrpasol sy'n darparu hyfforddiant gydol y flwyddyn ac mae llawer yn mynychu. Mae'r rhaglen hyfforddi barhaus hon ar gael i bob sefydliad partner a'r rhai sy'n dymuno bod yn bartneriaid, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cymorth y gall y Gronfa Cymorth Dewisol ei ddarparu ac i wella mynediad i'r gronfa.

Mae gwell dull cyfathrebu i Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol sy'n dymuno cynorthwyo etholwyr gyda cheisiadau hefyd wedi'i gyflwyno eleni.

Goblygiadau ariannol - **Byddai unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol**

Argymhelliad 11

Hoffem i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'i hystyriaeth o'r argymhelliad hwn.

Ymateb – Derbyn

Rydym wedi gweithio â Northgate - partner Cronfa Cymorth Dewisol – i ddiwygio'r system er mwyn galluogi ffoaduriaid newydd i gael mynediad i'r Gronfa Cymorth Dewisol cyn cael eu rhif Yswiriant Gwladol, drwy bartneriaid dibynadwy. Rydym hefyd yn deall bod y Swyddfa Gartref yn bwriadu cyflwyno proses newydd yn y Flwyddyn Newydd a ddylai leihau nifer y ffoaduriaid newydd anghenus yn sylweddol,

drwy sicrhau bod rhifau Yswiriant Gwladol yn cael eu hargraffu ar y Drwydded Breswyl Fiometrig ar adeg caniatáu statws ffoadur.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r Groes Goch Brydeinig, Cyngor Ffoaduriaid Cymru a phartneriaid eraill i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer cronfa argyfwng amddifadedd i geiswyr lloches yng Nghymru ac mae'r sgyrsiau hyn yn parhau. Mae ein partneriaid wedi gwneud peth gwaith cwmpasu cychwynnol ac wedi cyflwyno eu sylwadau inni. Rydym wedi gofyn yn ddiweddar i ragor o waith gael ei wneud cyn inni gyfarfod i drafod opsiynau i'w hystyried o bosibl gan Weinidogion.

Mae 'Dim Cefnogaeth o Gronfeydd Cyhoeddus' a Fforwm Amddifadedd newydd wedi'u sefydlu, dan gadeiryddiaeth y Groes Goch Brydeinig a Chyngor Ffoaduriaid Cymru, gyda chyfranogiad Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Mudo Strategol Cymru, Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid eraill i gydlynu gweithgareddau yn well er mwyn lliniaru amddifadedd.

Goblygiadau ariannol – Dim. Byddai unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Argymhelliad 12

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am yr hyn y bydd yr arian ychwanegol yn cael ei wario arno a sut y bydd yn cryfhau'r trefniadau gweithio ar lefel ranbarthol.

Ymateb – Derbyn o ran egwyddor

Mae grant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cynnwys cyllid i awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector gyflwyno darpariaeth gwasanaethau uniongyrchol i gefnogi a diogelu dioddefwyr; cydgysylltu gwasanaethau yn strategol ar lefel leol; a hyfforddiant. Mae'r cyllid wedi'i gyfeirio tuag at gyflawni nodau Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Bydd y gwaith parhaus o ddatblygu dull gweithredu ar lefel rhanbarthol yn dyrannu adnoddau i wasanaethau cydgysylltiedig cryfach a gwell, ac yn cynnig gwasanaeth o ansawdd gwell i'r rhai sydd wedi dioddef neu sydd wedi goroesi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd y cyllid ychwanegol yn cefnogi'r dull hwn ymhellach ar draws y rhanbarthau i wella ymgysylltiad a darpariaeth gwasanaethau rheng flaen.

Goblygiadau ariannol – Dim

Digartrefedd

Argymhelliad 13

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer atal digartrefedd. Yn ogystal, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a yw'n bwriadu monitro gwariant a chanlyniadau yn hyn o beth, yn enwedig o ystyried y cynnig i gyfuno cyllid ar gyfer Atal Digartrefedd â'r grant newydd ar gyfer Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chefnogaeth, ac os felly, sut.

Ymateb – Derbyn

Mae atal digartrefedd yn parhau'n flaenoriaeth i'r Llywodraeth ac roedd Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i helpu i atal a lliniaru digartrefedd.

Bydd swyddogion Polisi Tai yn gweithio'n agos â thimau Cyngor ar Dai awdurdodau lleol i sicrhau bod y grant yn cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n cefnogi pobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Yn dilyn dyfarnu'r cyllid cychwynnol bydd swyddogion yn monitro rhaglenni braenaru a'r defnydd o gyllid gan gynnwys i ba raddau y mae gwasanaethau'n parhau i dargedu pobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto o ran symud at grant sengl cyfunol ar gyfer Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chefnogaeth.

Bydd awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn y cynllun braenaru yn cyflwyno eu cynlluniau gwario arfaethedig ar gyfer cyllid sy'n rhan o'r rhaglen fraenaru Hyblygrwydd Cyllido i Lywodraeth Cymru ar gyfer craffu. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gynlluniau gwario ac wedi eu cymeradwyo y bydd y grant yn cael ei dalu.

Byddwn yn parhau i gasglu a chyhoeddi data ar wasanaethau cefnogi pobl ac atal digartrefedd.

Goblygiadau ariannol – Dim

Safonau tai

Argymhelliad 14

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn eglur sut y bydd y data newydd ar gyflwr y stoc tai yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau ariannu yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol.

Ymateb – Derbyn

Bydd Rhaglen Tystiolaeth o Amodau Tai (HCEP) yn adrodd ar ei chanfyddiadau yn 2018.

Rydym wedi ymrwymo i ddilyn system dargedu yn seiliedig ar dystiolaeth a byddwn yn defnyddio'r rhaglen yn y modd hwn.

O gofio nad ydym yn gwybod eto beth fydd y dystiolaeth yn ei datgelu, ni allwn ddiffinio ei heffaith ar benderfyniadau cyllido yn y dyfodol. Fodd bynnag, o gofio'r cafeat hwnnw, rydym yn credu y gallai'r dystiolaeth arwain at newid tuag at:

1. Ffocws gwahanol ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru ar ôl 2020 a fydd yn pwysleisio'r angen i wella cyflwr eiddo perchnogion preswyl; a

2. Menter ôl-osod sylweddol er mwyn datgarboneiddio ledled Cymru yn gweithio ar draws timau Tai ac Amgylchedd Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r dystiolaeth newydd.

Rydym hefyd yn comisiynu darn o waith a fydd yn adeiladu ar y data sy'n llifo o'r Rhaglen Tystiolaeth o Amodau Tai ac sy'n arwain at gamau gweithredu wedi'u targedu (ac o bosibl mentrau caffael gwahanol) drwy gysylltu'r Rhaglen Tystiolaeth o Amodau Tai â'r costau penodol sy'n gysylltiedig ag ymyriadau gwahanol fydd yn gweithio ar wahanol fathau o dai mewn gwahanol rannau o Gymru.

Goblygiadau ariannol – Nid ydynt yn hysbys nes bod y Rhaglen Tystiolaeth o Amodau Tai yn adrodd ar ei chanfyddiadau yn 2018.

Byw'n annibynnol a chyfranogiad tenantiaid

Argymhelliad 15

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro pryd y bydd data monitro'r fframwaith Hwyluso ar gael, ac yn cyflwyno adroddiad inni ar y data cyn gynted ag y bo modd.

Ymateb – Derbyn

Mae swyddogion wrthi'n comisiynu prosiect bach i gasglu a dadansoddi data, a rhagwelir y bydd adroddiad terfynol ar gael ym mis Mawrth 2018.

Goblygiadau ariannol – Byddai unrhyw gostau yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol

Argymhelliad 16

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am berfformiad TPAS Cymru pan fo data monitro perfformiad ar gael.

Ymateb – Derbyn

Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfnod hyd ddiwedd mis Mawrth 2018 yn cael ei darparu, yn seiliedig ar y meini prawf a amlinellir yn y cynnig grant i TPAS Cymru. Bydd hyn yn cyd-daro â diwedd blwyddyn gyntaf y trefniadau newydd ar gyfer cyfranogiad tenantiaid.

Goblygiadau ariannol - Dim